



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**LLYWODRAETH CYMRU  
DEDDF IAWNDAL TIR 1973**

### Cyffordd 28 yr M4

1. Mae Gweinidogion Cymru drwy hyn yn hysbysu fod y darn o briffordd y manylir arno yn yr Atodlen isod wedi ei agor i draffig cyhoeddus ar 21 Tachwedd 2018. Yr enw a roddir ar y dyddiad hwnnw yw'r "dyddiad perthnasol".
2. O dan Ran I o Ddeddf Iawndal Tir 1973 (fel y'i diwygiwyd) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel y Ddeddf), caniateir i iawndal gael ei hawlio gan unrhyw un sydd â buddiant cymhwyso mewn tir os yw gwerth y buddiant hwnnw wedi dibrisio mwy na £50 oherwydd ffactorau ffisegol a achosir wrth i'r briffordd a newidiwyd gael ei defnyddio. Y ffactorau ffisegol yw sŵn, dirgryndod, aroglau, mygdarth, mwg a goleuadau artiffisial a gollwng unrhyw sylwedd solet neu hylifol ar y tir.
3. Y diwrnod cyntaf y caniateir hawlio iawndal yw'r diwrnod ar ôl i ddeuddeng mis fynd heibio ers y dyddiad perthnasol, a'r enw a roddir arno yw'r "diwrnod hawlio cyntaf". Y diwrnod hawlio cyntaf ar gyfer y briffordd hon a newidiwyd yw 21 Tachwedd 2019. Ac eithrio o dan yr amgylchiadau a ddisgrifir ym mharagraff 4 o'r hysbysiad hwn, ni chaniateir hawlio cyn y diwrnod hawlio cyntaf.
4. Dim ond pan fo'r hawlydd wedi gwneud contract i werthu ei fuddiant yn yr eiddo neu, yn achos eiddo nad yw'n annedd, i roi tenantiaeth, y ceir hawlio yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad perthnasol a'r dyddiad hawlio cyntaf. Rhaid hawlio rhwng yr adeg y gwneir y contract a chyn i'r gwerthiant gael ei gwblhau neu cyn i'r denantiaeth gael ei rhoi. Ni chaiff Gweinidogion Cymru dderbyn hawliad ar ôl i'r gwerthiant gael ei gwblhau neu ar ôl i'r denantiaeth gael ei rhoi. Ni chaiff unrhyw iawndal mewn cysylltiad â'r cyfryw hawliad ei dalu cyn y diwrnod hawlio cyntaf.
5. Yn rhinwedd adran 19(2A) o'r Ddeddf ac o dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980, bydd terfyn amser ar hawliad os, ymhen chwe blynedd o'r diwrnod hawlio cyntaf, a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, na fydd yr hawlydd wedi:  
a) Cytuno yn ysgrifenedig i gynnig o iawndal (gan gynnwys unrhyw brisiad a threuliau cyfreithiol rhesymol) a wneir yn ysgrifenedig gan Weinidogion Cymru; neu b) Os na lwyddir i gytuno, wedi cyfeirio'r mater at y Tribiwnlys Tiroedd er mwyn iddo ef benderfynu ar yr iawndal. Os bydd y terfyn amser ar wneud hawliad o dan Ddeddf Cyfyngiadau 1980 wedi mynd heibio, ni chaniateir bellach ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru dalu iawndal.

6. Ni chaniateir hawlio unrhyw iawndal o dan Ran 1 o'r Ddeddf os cafodd rhan o'r eiddo ei gaffael er mwyn gwneud y newidiadau i'r briffordd. Yn lle hynny, mae iawndal am dir a gaffaelir yn cael ei dalu o dan reolau gwahanol.

7. Er mwyn hawlio iawndal o dan Ran 1 o'r Ddeddf, rhaid i fuddiant cynhwyso yn y tir fod wedi ei gaffael cyn i'r newidiadau gael eu cwblhau a chyn iddynt agor gyntaf i draffig cyhoeddus. Rhaid i'r buddiant cymhwyso hefyd fod yn cael ei ddal gan yr hawlydd ar ddyddiad gwneud yr hawliad. Rhaid i'r hawlydd fedru dangos tystiolaeth am ei fuddiant yn yr eiddo pan fo Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny. Ni thelir iawndal oni ellir gwirhau buddiant cynhwyso'r hawlydd yn yr eiddo. Mae buddiannau mewn tir sy'n rhai cymwys i gael iawndal yn cael eu pennu yn adran 2 o'r Ddeddf.

8. Asesir iawndal drwy gyfeirio at brisiau eiddo sy'n gyfredol ar y diwrnod hawlio cyntaf. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r defnydd o'r briffordd a newidiwyd, fel y bydd yn bodoli ar y diwrnod hawlio cyntaf. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi hefyd i unrhyw ddwysáu y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl wedyn o ran y defnydd o'r briffordd a newidiwyd yn y cyflwr y bydd ynddo ar y diwrnod hawlio cyntaf.

9. Caiff unrhyw berson sydd â hawl i fuddiant cymhwyso ac sy'n ystyried bod ganddo hawliad o dan y darpariaethau a enwir gael rhagor o wybodaeth a ffurflenni hawlio oddi wrth: e-bost [part1claims@llyw.cymru](mailto:part1claims@llyw.cymru) neu drwy ysgrifennu at y Tîm Hawliadau Rhan 1 a Sŵn, Seilwaith yr Economi, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ gan ddyfynnu cyfeirnod BZ1110303.

10. Crynodeb o'r gyfraith sydd yn yr hysbysiad hwn. Ni fwriedir iddo fod yn ddatganiad llawn a chyflawn ohoni. Dylai unrhyw un sy'n bwriadu gwneud hawliad ystyried cael cyngor proffesiynol annibynnol.

## ATODLEN

Diben y prosiect yw gwella capasiti cyffordd 28 ar yr M4 drwy ledi'r ffordd ymadael â'r M4 tua'r dwyrain, ac adeiladu ffordd newydd at Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 drwy Gylchfan Tredegar sydd hefyd wedi cael ei lledu.

Bydd cylchfan Basaleg yn gwella capasiti'r gyffordd a bydd y ffordd yn cael ei lledu ar yr A467 Forge Road - A468 Forge Road. Ehangwyd capasiti'r gylchfan a gosodwyd signalau llawn i reoli traffig.

Bydd yr A48 Pont Ebwy yn gwella capasiti'r gyffordd, bydd ffyrdd cyswllt trwodd newydd ar gyfer Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol yr A48 a bydd y ffordd ddynesu at y gyffordd ar yr A48 tua'r dwyrain yn cael ei lledu. Defnyddiwyd technoleg amser real ar gyfer signalau rheoli.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn drwy ffonio'r Tîm Hawliadau Rhan 1 a Sŵn ar 03000 256475.

**Nicole Brailsford**  
Pennaeth Iawndal a Rheoli Tir